Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cwtsh Y Clos**

**Danrallt**
**Carmarthen**
**SA32 8JX**



## Dyddiad yr arolygiad wedi'i gwblhau

13 Ionawr 2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gellir gweld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gellwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| **Graddau** | **Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymrwymedig i wella'n barhaus ac mae ganddynt lawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hyrwyddo eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella.<br><br>Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cofrestrwyd meithrinfa Cwtsh y Clos yn 2014 ac mae'n darparu gofal dydd llawn ar gyfer hyd at 23 o blant. Caiff y gwasanaeth ei ddarparu mewn adeilad wedi'i adnewyddu ar ffermdir yn ardal wledig Llanarthne. Y personau cofrestredig yw Ann Davies a Gwenllian Stephens. Y personau â chyfrifoldeb yw Gwenllian Stephens a Rhian Thomas. Cymraeg yw iaith y gwasanaeth, ac maent yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 7:30yb a 6:00yh.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

| Theme | Rating |
|---|---|
| Lles | Da |
| Gofal a Datblygiad | Digonol |
| Yr amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Gwael |

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r plant sy'n mynychu Cwtsh y Clos yn hapus iawn ac yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu. Maent yn cael gofal gan staff gofalgar a phrofiadol. Mae'r amgylchedd yn ddiogel a darperir adnoddau o safon uchel sy'n eu galluogi i wneud dewisiadau ac sy'n hyrwyddo dysgu ac annibyniaeth yn yr ardaloedd mewnol ac allanol. Nid yw'r arweinwyr bob amser yn sicrhau y cydymffurfir â phob rheoliad wrth oruchwylio a hysbysbu am ddigwyddiadau arwyddocaol.

**2. Gwelliannau**

Mae arweinwyr a staff wedi mynychu amryw gyrsiau er mwyn diogelu ac atal risgiau i blant gan gynnwys gwblhau cwrs Iechyd a diogelwch yn y gweithle, hyfforddiant RIDDOR a chwrs asesiadau risg. Mae'r holl staff wedi cwblhau 'tystysgrif camau safon uwch' a hyfforddiant tylino babi. Mae'r arweinydd yn mynychu hyfforddiant ysgol goedwig. Mae staff yn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas y plant yn cael ei barchu.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Yn ystod yr arolygiad hwn, nodwyd gennym feysydd lle nad yw'r person cofrestredig yn bodloni'r gofynion cyfreithiol ac mae hyn yn arwain at risg bosibl a/neu ganlyniadau gwael i'r plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Felly, rydym wedi cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio mewn perthynas â'r canlynol:

- Diogelu a hyrwyddo lles (Rheoliad 20): hyrwyddo a darparu’n briodol ar gyfer lles plant perthnasol

Nodir manylion y camau gweithredu sy'n ofynnol yn yr adroddiad diffyg cydymffurfio sydd ynghlwm.

Rydym wedi rhoi gwybod i'r personau cofrestredig bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â chofnodion (rheoliad 31) er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn. Nid oes hysbysiad wedi cael ei gyflwyno ar yr achlysur hwn, gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

## 1. Lles Da

**Crynodeb**

Mae'r plant yn hapus iawn ar y cyfan ac mynegu eu hunain yn hyderus wrth gyflawni eu dewisiadau a gweithgareddau yn hyderus. Maent yn datblygu rhyngweithiau da a chyfeillgarwch cryf gyda'u cyfoedion. Mae plant yn dangos anwyldeb gyda staff ac yn hyderus bod eu gofynion yn cael eu cyflawni yn brydlon. Mae plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth yn ifanc iawn.

**Ein canfyddiadau**

Mae'r plant yn siarad ac yn mynegi eu hunain yn dda ac mae iaith y cartref yn cael ei hyrwyddo ar bob adeg. Roedd y plant yn hapus i ofyn am fwy o fwyd amser cinio ac yn hyderus i ofyn am gymorth wrth wneud tasgiau crefft gan ddefnyddio glud a phapur i wneud sbienddrych. Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried ar bob adeg. Daeth y plant â llyfrau, teganau a defnyddiau i'r staff yn gartrefol gan dderbyn ymateb positif. Roeddynt yn mwynhau gwrando ar y staff yn darllen y storiau iddynt ac ymatebodd plentyn yn bositif gan wenu wrth ddangos ei fod wedi cael sticer am wrando'n dda ar ôl bod allan am dro gyda staff. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ar yr hyn sy'n effeithio arnynt. Dewisodd y plant nifer helaeth o wahanol gweithgareddau, yn cynnwys offerynnau cerddorol, chwarae rôl yn defnyddio nwyddau cegin ac eraill wedi dewis chwarae gyda deunyddiau o'r bocs aml-synhwyraidd. Mae teimladau, hoff a chas bethau ac anghenion y plant yn cael eu cydnabod am fod ganddynt gyswllt da gyda'r staff. Mae plant yn hyderus wrth ddangos eu teimladau ynglyn â'r bwydydd roeddent yn hoffi a ddim yn hoffi.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n hyfryd ac mae teimlad o gyfeillgarwch yn datblygu yn ifanc iawn trwy gyd-chwarae hyfryd. Roedd y plant yn hapus i rhoi cwtsh i blant eraill os oeddent wedi mynd a thegan oddi wrthynt. Roedd eraill yn dangos hoffter a chyfeillgarwch trwy fwytho pen plentyn bach wrth iddynt ymdrechu i weld y plant hŷn. Roedd y rhyngweithio cadarn a chlos rhwng y plant a'r oedolion yn gyson ym mhob ardal o'r feithrinfa. Roedd plant wrth ddihuno yn dangos anwyldeb tuag at staff ac yn rhedeg atynt wrth gyrraedd y feithrinfa i roi cwtsh iddynt. Mae'r plant yn mynegi empathi ac maent yn sensitif i anghenion eraill, er enghraifft, roedd plant yn annog eu ffrindiau i fwyta'r bwyd amser cinio achos bod y bwyd yn flasus trwy ddweud "*Dere, ma hwn yn neis, edrych mmmm!"* Mae'r plant yn gwrtais ac yn ymddwyn yn foesgar, gyda phlant yn dweud 'diolch' am eu bisgedi amser cinio heb gael eu promtio i wneud gan staff.

Mae'r plant yn ymroi ac yn dangos parch at eiddo a phobl gan ymateb yn syth i gais y staff i dacluso. Maent yn chwarae rhan pwrpasol yn y broses o benderfynu a dilyn y rheolau sy'n effeithio ar eraill, er enghraifft roedd plant yn rhannu yn dda a gwelwyd plentyn yn chwarae gyda hŵpiau rwber a dweud wrth blentyn arall *"Wyt ti eisiau hwn?"* Dangosodd y plant ddealltwriaeth da iawn o reolau wrth fynd allan i'r awyr agored gan ddweud wrth y staff bod yn rhaid aros ar y porfa os oes car yn dod. Dilynai pawb gyfarwyddyd y staff gan ddal dwylo

a cherdded yn drefnus. Mae’r plant yn cael eu cefnogi a’u hannog yn weithredol i gymryd rhan mewn gweithgarwch sy’n arwain at ymdeimlad da iawn o gyflawni rhywbeth a hunan-barch mawr. Dangosodd rhai parch amlwg at eu gwaith crefft a gwelwyd plant yn ymfalchio yn eu gallu i ddal pêl. Maent yn awyddus i ddangos neu siarad am yr hyn y maent wedi bod yn ei wneud. Roedd un plentyn wedi bod ar wyliau ac yn awyddus iawn i rannu ei phrofiadau gyda nifer o’r staff wrth gyrraedd y feithrinfa yn hapus gan wenu a rhoi breichiau o amgylch y staff.

Mae diddordebau’r plant yn cael eu gwerthfawrogi er enghraifft, dewisodd rhai chwarae gyda’r pêl rygbi tra roedd eraill yn frwdrydig am chwarae gyda’r tractorau fferm.  Mae’r plant yn egnïol ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad yn eu chwarae yn enwedig wrth ymweld â’r anifeiliaid ar y fferm. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn ac maent yn gyfarwydd â’r arferion dyddiol. Aeth ambell blentyn yn syth i orwedd i lawr ar ôl cinio gan eu bod wedi blino ac aeth eraill yn syth i chwarae gyda theganau o’u dewis. Roedd y plant yn gyffrous ac yn gwrando’n dda ar y stori am tedi allan yn yr eira. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd diddorol dan do ac yn yr awyr agored ac yn gyffrous am weld yr anifeiliaid. Dewisodd blant ymlacio a chael cyfnodau tawel wrth ddarllen storiau a hefyd wrth fynd i gysgu’n dawel yn yr ardaloedd cysgu. Mae’r plant yn cael llawer o gyfleoedd i ddechrau eu chwarae eu hunain a dylanwadu ar eu tasgau a’u gweithgareddau am fod cydbwysedd da rhwng gweithgareddau a arweinir gan blant a’r rhai a arweinir gan oedolion. Roedd y plant yn arwain eu chwarae yn naturiol ac yn ymuno yng ngweithgareddau crefft, canu a stori yn ôl eu diddordebau a’u gallu.

Mae’r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth sy’n eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus, datrys problemau, datblygu’n greadigol, arbrofi a bod yn ddychmygus. Roedd plant ifanc yn defnyddio ffyrc a llwyau i fwydo eu hunain. Defnyddiodd y plant sgiliau annibynniaeth trwy arllwys llaeth eu hunain a rhoddodd y plant fenyn ar dost eu hunain a’i dorri yn ddau darn.

## 2. Gofal a Datblygiad — Digonol

**Crynodeb**

Ar y cyfan, mae staff yn dilyn polisïau iechyd a diogelwch yn effeithiol o fewn ardaloedd mewnol y feithrinfa. Er hyn, nid yw'r staff yn goruchwylio plant yn gyson ar bob adeg. Mae'r staff yn rhyngweithio yn bositif gyda phlant ac yn ymateb mewn ffordd gadarnhaol a chyson. Maent yn darparu gweithgareddau ac amrywiaeth eang o brofiadau diddorol tu fewn ac yn yr ardal allanol sydd yn hyrwyddo sgiliau sy'n datblygu annibyniaeth.

**Ein canfyddiadau**

Mae'r staff yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau ac yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn effeithiol. Mae staff yn darparu bwydlen maethlon sydd yn diwallu anghenion dietegol a meddygol y plant. Roedd cofnod yn y gegin a hefyd yn yr ystafell chwarae oedd yn nodi'n glir anghenion meddygol a dietegol unigolion a'r staff yn hollol ymwybodol o hyn. Mae'r staff yn deall ac yn gweithredu canllawiau arfer gorau Llywodraeth Cymru, sef Bwyd a Maeth ar gyfer lleoliadau plant. Mae staff yn gweithredu arferion glanhau cadarn ac arferion hylendid da gan saniteiddio byrddau cyn ac ar ôl bwyd, gwneud yn siwr eu bod yn golchi dwylo cyn paratoi bwyd a sicrhau bod plant yn golchi dwylo cyn bwyd ac ar ôl bod yn yr ardal tu allan. Mae staff yn dilyn polisiau a gweithdrefnau ar gyfer newid cewynnau yn effeithiol ac yn gwisgo ffedogau a menig. Mae staff yn nodi ac yn rheoli risgiau yn rhagweithiol. Mae bron pob aelod o staff yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn plant. Ymatebodd y staff yn dda i gwestiynau a ofynnwyd iddynt ar y camau i ddilyn mewn sefyllfa o gamdrin a diogelu plant a'r asiantaethau fyddent yn barod i gysylltu â nhw. Er hyn, nid yw'r staff wedi diogelu plant ar bob adeg gyda diffyg goruchwyliaeth manwl yn arwain at ddigwyddiad yn y feithrinfa. Adolygwyd eu harfer yn dilyn hyn, a bellach mae'r staff yn cwblhau asesiad risg cyn mynd â'r plant allan ac yn cyfri plant ar pob rhan o'r daith.

Mae'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith mewn ffordd gyson. Er enghraifft, Mewn sefyllfa lle roedd plant eisiau cadw adnoddau ymarfer corff i'w hunain, ymyrrodd y staff yn bositif gan ddod lawr i lefel y plentyn a dweud "*Nawrte, dewch i ni gael rhannu rhain…Edrych un i ti, un i ti ac un i ti… Pawb yn hapus?*" Roedd y plant yn parchu bod rhaid rhannu yn dilyn hyn. Roedd y staff yn rhoi clod i blant yn aml iawn am fod yn blant da am ymolchi a bwydo eu hunain. Mae ganddynt ddealltwriaeth a gwybodaeth dda o ddatblygiad plant a'r ffordd y mae hyn yn effeithio ar ymddygiad plant. Roedd staff yn rhyngweithio yn dda gyda phlant oedd yn teimlo'n dost gan fagu a rhoi llaeth iddynt i'w cysuro a gwelwyd staff yn annog plant tawel i ddod i chwarae gyda nhw gan wybod beth oedd eu diddordebau. Dangosodd y staff eu hymwybyddiaeth o ddymuniadau unigol y plant, er enghraifft roeddynt yn gwybod pa fabanod oedd yn hoffi cysgu yn y gwely neu mewn bygi. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol. Dangosodd yr holl staff gynhesrwydd a charedigrwydd tuag at y plant. Roedd y staff yn famol iawn tuag at y plant ac yn barod iawn i rhoi maldod a cwtsh i'r plant ar unrhyw adeg a dangosodd y plant

gynhesrwydd nôl tuag atynt yn ogystal. Gwelwyd hyn wrth i blant wenu a neidio tuag at staff i rhoi cwtsh iddynt wrth ddod i fewn i'r feithrinfa. Mae'r staff yn gwerthfawrogi ac yn darparu gofal ar gyfer plant aml-ieithog.

Mae staff yn ymrwymedig i gynnig amrywiaeth eang o weithgareddau chwarae a dysgu. Mae staff yn cydweithio a rhyngweithio'n dda iawn wrth i blant ddangos diddordeb yn y gwahanol adnoddau, er enghraifft gwelwyd staff yn mynd ati yn egniol i gyfathrebu gyda phlant wrth iddynt chwarae rôl yn y cornel cegin a meddygfa gan fwydo iaith yn arbennig. Mae staff yn ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant gan fod yna system gweithwyr allweddol yn ei lle. Mae'r staff unigol yn adnabod ac yn diwallu angenion a gallu'r plant wrth chwarae a pharatoi gweithgareddau addas wrth ymdrin â rhifau, lliwiau, rhannau o'r corff, datblygu sgiliau mân, darllen a thrafod a bwydo iaith yn ddiflino.  Mae'r staff yn asesu er mwyn llywio arfer yn y dyfodol ac yn cynllunio yn fanwl iawn. Maent yn cynllunio gweithgareddau yn seiliedig ar themâu, diddordebau plant ac asesiadau gan weithwyr unigol y plant. Gwelwyd cynllunio drwyadl ar gyfer y ddarpariaeth parhaus a threfnwyd adnoddau yn addas ar gyfer yr ardaloedd yn unol â'r themau, er enghraifft, llyfrau, geirfa Cymraeg, adnoddau chwarae rôl yn seiliedig ar y corff. Yn ogystal â'r themâu, mae staff wedi cynllunio a darparu cyfleoedd i blant ddathlu Hannukah, blwyddyn newydd Tseiniaidd a dathliadau Cristnogol.

## 3. Yr Amgylchedd **Da**

### Crynodeb

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel a glân ac asesir risgiau mewn modd effeithiol. Mae'r amgylchedd yn darparu digon o le er mwyn galluogi plant i symud a chwarae yn hwylus gydag amrywiaeth da o adnoddau sy'n cynnig cyfleoedd cyffrous a diddorol yn yr ardaloedd mewnol ac allanol.

### Ein canfyddiadau

Mae'r amgylchedd mewnol ac allanol yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae drysau'r feithrinfa ar glo i atal unrhyw aelod o'r cyhoedd rhag cerdded mewn i'r adeilad. Mae larwm ar ddrws ffrynt y feithrinfa er mwyn rhoi gwybod i'r arweinwyr bod ymwelwyr yn y drws. Mae cofnod o ymwelwyr yn y gwasanaeth a gofynnwyd i ni arwyddo mewn ac allan. Mae gwiriadau trydanol a gwres yn cael eu cwblhau yn rheolaidd, yn ogystal â gwiriadau a phrofion tân. Mae eu harferion rheoli heintiau da yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant yn drylwyr. Maent yn dilyn amserlen glanhau sydd yn cael ei gyflawni yn ddyddiol gan staff y feithrinfa. Mae'r arweinwyr yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol ac asesiadau perygl tân effeithiol a chywir sydd yn cael eu diweddaru yn rheolaidd. Mae driliau tân yn cael eu cyflawni a chofnodi yn gyson.

Mae'r safle yn groesawgar, yn gynnes ac yn hygyrch i bawb. Mae'r arweinwyr yn sicrhau y gall bron pob plentyn gael mynediad at amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau a chyfarpar sydd o ansawdd da ac yn addas ar gyfer oed y plant. Mae preifatrwydd yn cael ei barchu gan mai un plentyn sydd yn mynd i'r tŷ bach ar y tro. Darperir byrddau a chadeiriau isel ar gyfer y plant amser bwyd a gweithgareddau. Mae tri cot gwely ar gael yn yr ystafell dawel a matiau er mwyn i'r gweddill cael cysgu yn annibynnol ar fatiau unigol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardaloedd chwarae da er mwyn i'r plant symud yn rhwydd ac yn diwallu'r rhan fwyaf o anghenion y plant. Er enghraifft, mae ardal chwarae meddal i'r plant ieuengaf a digon o le iddynt chwarae yn rhydd yn yr ardal mewnol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ardal chwarae yn yr awyr agored yn cael ei defnyddio mor aml â phosibl. Mae'r ardal allanol wrth gefn yr adeilad yn ddiogel gydag ardal laswellt artiffisial. Mae'r ardaloedd dan dô ac allanol yn ennyn diddordeb a thanio dychymyg y plant. Mae llithren, beiciau cydbwysedd, peli ac adnoddau dringo ar gael i'r plant. Mae ardal naturiol yn ymestyn gwybodaeth a datblygiad y plant yn yr awyr agored yn ogystal â'r amrywiaeth o anifeiliaid ac amgylchedd naturiol gyda choed, blodau a chaeau fferm gwledig.

Mae'r arweinwyr yn trefnu'r amgylchedd mewnol yn dda er mwyn iddo gynnig amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae addas i bron pob ystod oedran y plant y gofelir amdanynt. Mae adnoddau yn cynnwys ardaloedd chwarae rôl cegin a meddygfa, offer adeiladu, chwarae byd bach, adnoddau aml-synhwyraidd, llyfrau, pòsau ac adnoddau mathemategol. Mae'r arweinwyr yn darparu adnoddau da er mwyn ennyn chwilfrydedd y plant am y gymdeithas ehangach, gan ddathlu cydraddoldeb a dysgu am ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Er enghraifft, mae nifer helaeth o storïau, doliau a phypedau aml-gyfrwng yn yr ardal chwarae.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Gwael**

**Crynodeb**

Mae arweinwyr yn adolygu polisïau a gweithdrefnau yn gyson. Maent wedi gwneud camau cadarn er mwyn gwneud gwelliannau ar ôl digwyddiad unigol yn y feithrinfa. Fodd bynnag, rydym wedi cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelu a sicrhau lles plant. Mae'r arweinwyr yn adolygu eu gwasanaeth yn drwyadl bob blwyddyn ac yn ystyried barn y plant, rhieni a'r staff wrth gynllunio gwelliannau. Mae gan yr arweinwyr brosesau effeithiol ar gyfer recriwtio staff ac maent yn cefnogi'r staff yn llwyr. Maent wedi meithrin cydberthnasau da â'r rhieni ac yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd am eu plentyn. Maent wedi hysbysu Arolygaeth Gofal Cymru am rhai newidiadau a digwyddiadau sylweddol yn y gorffennol. Er hyn, mae angen gwelliannau i gydymffurfio gyda'r rheoliad i hysbysu asiantaethau priodol am ddigwyddiadau arwyddocaol.

**Ein canfyddiadau**

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth cadarn a chlir ar gyfer y gwasanaeth, ac maent yn ei rhannu ag eraill trwy rannu polisiau a chynlluniau gweithredu gyda staff a rheini. Mae'r arweinwyr yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol, llawn gwybodaeth sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir ac sy'n cyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â llawer o'r rheoliadau perthnasol a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Ar y cyfan, mae arweinwyr yn sicrhau eu bod yn ymgysylltu ag arolygaeth gofal Cymru (AGC) ac yn eu hysbysu am ddigwyddiadau arwyddocaol er nad oeddent wedi rhoi gwybod am un digwyddiad arwyddocaol. Hefyd nid oeddynt wedi diogelu a hyrwyddo lles plentyn trwy sicrhau goruchwyliaeth plant trylwyr. Yn ystod cyfnod yr arolygiad, roedd arweinwyr wedi ymateb yn briodol i hyn. Mae'r arweinwyr yn adolygu eu polisïau ac yn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu er mwyn darparu gofal o safon uchel ar y cyfan.

Mae'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel, maent yn mynd ati i annog eu tîmau ac yn herio perfformiad gwael yn gyson. Er enghraifft, mae arweinwyr yn sicrhau bod eu staff yn cael hyfforddiant cyson er mwyn iddynt fod yn gymwys i ddiogelu plant ym materion hylendid bwyd, cymorth cyntaf a iechyd a diogelwch. Nid oedd y staff yn gyfarwydd â'u dyletswyddau i atal gweithgarwch gwrth-derfysgaeth yn y Deyrnas Unedig. Mae arweinwyr yn cynnal cyfarfodydd staff yn rheolaidd ac yn cadw cofnodion. Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth da o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Maent yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.

Mae'r arweinwyr yn mynd ati i roi hunanwerthusiad ar waith yn flynyddol. Maent yn gofyn am awgrymiadau gan y plant, eu rhieni/gofalwyr, ymarferwyr a phartneriaid eraill ac yn gweithredu arnynt. Maent yn dynodi targedau a gwelliannau ar gyfer y gwasanaeth ac yn paratoi adroddiad adolygu ansawdd gofal. Mae'r arweinwyr yn adolygu eu cynllun gweithredol yn rheolaidd. Caiff ei rannu â phob person perthnasol. Gall yr arweinwyr ddangos

eu bod yn gweithio tuag at roi canllawiau arfer gorau Llywodraeth Cymru, sef Bwyd a Maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant.

Mae gan yr arweinwyr brosesau effeithiol ar waith er mwyn galluogi’r plant i godi pryderon/cwynion, er nad oeddynt wedi derbyn unrhyw gwynion. Mae’r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn er mwyn diogelu’r plant. Mae ganddynt systemau da ar waith i ddiweddaru gwiriadau yn amserol ac mae’r ffeiliau staff cyflawn yn ateb gofynion rholeiddio. Mae’r arweinwyr yn rhoi gweithdrefn sefydlu da ar waith ar gyfer pob gwirfoddolwr ac ymarferydd gan sicrhau eu bod yn ymwybodol o bolisiau a gweithdrefnau a chyfleoedd hyfforddiant. Mae cydweithio da iawn rhwng yr arweinwyr a’r staff. Mae ymdeimlad cryf o gyfeillgarwch ac agosatrwydd rhwng y staff i gyd.

Mae’r broses rheoli perfformiad yn un da ac yn annog ymarferwyr i ymgymryd ag amrywiaeth o hyfforddiant a chymhwyso’r hyn a ddysgir ganddynt. Ymgymerir â goruchwylio ac arfarniadau da a rheolaidd. Mae’r staff yn clodfori’r arweinwyr. Teimlai staff yn gryf eu bod yn cael eu cefnogi yn broffesiynol ac yn bersonol a hefyd bod drws agored iddyn nhw i drafod materion gyda’r arweinwyr ar bob adeg. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn cael eu defnyddio’n dda er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni cymarebau ac yn diwallu anghenion y plant.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod yr holl systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni yn dda. Maent yn rhoi gwybodaeth da i rieni ar lafar ac ysgrifenedig ar beth oedd plant wedi ei fwyta, yfed a gwneud yn ystod y dydd. Rhennir lluniau a gwybodaeth gyda rheini ar gyfryngau cymdeithasol yn ogystal ac mewn cylchlythyr dwyieithog. Mae gan yr arweinwyr gysylltiadau da ag amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol, y gymuned a rhanddeiliaid eraill er enghraifft mudiad meithrin, tîmau diogelwch y ffyrdd ac eco ysgolion. Mae arweinwyr yn sicrhau bod parteriaethau cadarn gyda’r gymuned. Er enghraifft, mae ymwelwyr wedi cynnig sesiynau crefyddol, aelodau teuluol yn ddarllen storiau i’r plant a menter iaith, mwncis myrddin a rygbi tots yn ymweld â’r wasanaeth. Mae ymweliadau hefyd wrth ddoctoriaid, nyrsys a deintyddion yn ehangu profiad y plant yn ystod thema ‘y corff’. Mae ffermwr yn dod ag anifeiliaid y fferm yn enwedig yn y gwanwyn i ddangos bywyd newydd e.e ŵyn bach. Mae arweinwyr wedi trefnu ymweliad i’r gerddi Botaneg lleol. Mae rhieni yn hapus iawn gyda’r wasanaeth. Ymatebodd rhieni yn bositif gan ddweud eu bod o’r farn fod y feithrinfa’n cynnig gofal cynhwysfawr i’r plant, gan hybu pob agwedd ar eu datblygiad a’u haddysgu am foesau da; yn bennaf gonestrwydd, cwrteisi, caredigrwydd a pharch. Mae’r plant yn cael eu trwytho yn y Gymraeg o ddydd i ddydd yn hollol naturiol. Maent yn teimlo bod eu plant yn ddiogel ac yn hapus yno.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac argymhellion yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd gan arolygiadau blaenorol

- Dim.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell fod yr arweinwyr yn gwneud y canlynol:

- sicrhau bod staff yn dilyn prosesau goruchwylio plant priodol ar bob adeg; ac
- annog y plant hŷn i wisgo eu cotiau ac esgidiau eu hunain.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad llawn oedd hwn, a gynhaliwyd yn gynharach na'r disgwyl ar ôl derbyn pryder ynghylch digwyddiad yn y gwasanaeth mewn perthynas â diogelwch y plant.

Cynhaliodd ddau arolygydd ymweliad dirybudd â'r gwasanaeth ar 13 Ionawr 2020 am gyfanswm o bump awr a 30 munud, ac ymweliad adborth ar 21 Ionawr 2020 am gyfanswm o un awr.

- Gwnaethom archwilio amrywiaeth eang o gofnodion, gan gynnwys y datganiad o ddiben, cofrestri, ffeiliau staff, polisïau a gweithdrefnau, cofnodion damweiniau a chwynion ffurfiol;
- gwnaethom siarad â'r personau cofrestredig, y staff, y plant a'r rhieni a dderbyniom holiaduron wrth naw rhiant a pedwar staff;
- arsylwad SOFI 2;
- gwnaethom arsylwi ar y gofal a roddwyd i'r plant gan y staff; a
- gwnaethom archwilio'r safle y tu mewn a'r tu allan.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Person(au) Cofrestredig** | **Celia Ann Davies**<br>**Gwenllian Stephens** |
| **Person â Gofal** | **Gwenllian Stephens**<br>**Rhian Thomas** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **23** |
| **Ystod oedran y plant** | **Chwech wythnos hyd at saith oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Llun i ddydd Gwener 7.30am – 6.00pm** |
| **Prif iaith y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **23 Gorffennaf 2019** |
| **Dyddiadau'r ymweliad arolygu hwn** | **13 Ionawr 2020** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol Y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi**: **03/04/2020**

# Arolygaeth Gofal Cymru

## Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

## Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010

# Hysbysiad Diffyg Cydymffurfio

### Gofal Dydd Plant

Mae’r hysbysiad hwn yn nodi’r meysydd lle nad yw eich gwasanaeth yn cydymffurfio â’r rheoliadau. Mae'n ofynnol i chi, y person cofrestredig, gymryd camau gweithredu er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio o fewn yr amserlenni a bennir.

**Mae cyflwyno'r hysbysiad hwn yn fater difrifol. Os na lwyddir i gydymffurfio, bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn gweithredu yn unol â’i pholisi gorfodi.**

Mae mwy o gyngor a gwybodaeth ar gael ar wefan AGC
www.arolygiaethgofal.cymru

### Cwtsh y Clos

Cwtsh y Clos
Danyrallt
Llanarthne
Caerfyrddin
SA32 8JX

Dyddiad cyhoeddi: **03/04/2020**

<table>
<tr><th colspan="2">Arweinyddiaeth a Rheolaeth</th><th>Ein Cyf: NONCO-00009133-XQKJ</th></tr>
<tr><td colspan="3">Y diffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn</td></tr>
<tr><td colspan="2">Amserlen gwblhau</td><td>3/7/20</td></tr>
<tr><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td colspan="2">Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau gweithredu</td><td>Rhif y rheoliad</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae arweinwyr wedi methu cydymffurfio gan ddilyn prosesau goruchwylio manwl.</td><td>20 (1) (b)</td></tr>
<tr><td colspan="3">Tystiolaeth</td></tr>
<tr><td colspan="3">- Nid ydy'r person gofrestredig yn cydymffurfio gyda rheoliad 20 (1) (b).<br>- Roedd y dystiolaeth yn dangos bod arweinwyr a staff wedi methu a chydymffurfio gan ddilyn prosesau goruchwylio manwl.<br>- Tystiolaeth – Nid oedd arweinwyr a staff wedi darparu goruchwyliaeth manwl ar bob plentyn yn dilyn digwyddiad yn y feithrinfa.<br>- Yr effaith ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth yw bod y plant yn gwynebu risg o niwed diangen.</td></tr>
</table>